

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**  
**9 CHWEFROR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 9 Chwefror 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Bill Crease, Chris Dolphin, Alasdair Ibbotson, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Jason Shallcross, Sam Swash a Linda Thomas

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Rob Davies (ar ran Bernie Attridge)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden), y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwyr Cyllid Strategol.

Yr Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu - ar gyfer cofnod rhif 78

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

**74. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim

**75. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Linda Thomas a Bill Crease.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**76. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu a oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Kevin Rush a Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed.

## 77. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried, gan gynnwys eitemau i'w dyrannu ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

Yn dilyn awgrymiadau gan y Cadeirydd, bydd adroddiad ar yr adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi 2023. Bydd adroddiad i egluro gofynion statudol ac anstatudol fel rhan o'r broses o osod y gyllideb hefyd yn cael ei drefnu.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cyngorwyr Bill Crease a Chris Dolphin.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; a
- (b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 78. **PECYNNAU GOFAL A ARIENNIR AR Y CYD - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am y ddyled hirdymor gyfredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), mewn perthynas â darparu pecynnau Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn Sir y Fflint ers yr adroddiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2022.

Dangosodd dadansoddiad o'r sefyllfa ddiwedd Ionawr 2023 anfonebau heb eu talu a oedd yn dod i gyfanswm o £0.666 miliwn, gan gynnwys £0.127 miliwn yn ddyledus i'w ad-dalu o fewn yr wythnosau nesaf. Ers mis Rhagfyr 2022, llwyddodd y broses gymrodeddu annibynnol rhwng y Cyngor a BIPBC i adennill £0.114 miliwn o hen ddyled, gan adael £0.327 miliwn i'w drafod drwy drefniadau cymrodeddu a fydd yn ailgychwyn cyn bo hir yn dilyn oedi dros dro yn sgil absenoldebau. Roedd lefel y ddyled weithredol oedd yn weddill, sef £0.211 miliwn, yn welliant o 15.65% ar yr hyn yr adroddwyd arno ym mis Rhagfyr.

Wrth groesawu'r cynnydd, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Pwyllgor am eu rhan yn y gwaith o gyrraedd y sefyllfa hon. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod y £0.327 miliwn yn risg bosib pe bai'r broses gymrodeddu'n methu â datrys yr anfonebau hyn.

Adleisiwyd ei sylwadau gan y Cyngorwyr Bill Crease.

Bu i'r Cyngorwyr Paul Johnson gydnabod rôl y Pwyllgor o ran codi ymwybyddiaeth o'r mater, a thalodd deyrnged i'r swyddogion a BIPBC am eu cyfraniad.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Jason Shallcross a Kevin Rush.

### **PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith rheoli cyllideb rhagweithiol parhaus o ran yr anfonebau heb eu talu a godwyd gan y Cyngor i'w talu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

### **79. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (MIS 9) A RHAGLEN GYFALAF 2022/23 (MIS 9)**

Cyflwynodd y Rheolwyr Cyllid Strategol (Cyllid Corfforaethol) sefyllfa monitro cyllideb refeniw 2022/23 ym mis 9 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf, cyn i'r Cabinet ei hystyried.

#### Monitro Cyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau ac/neu wella'r elw o gynllunio effeithlonrwydd a rheoli costau - oedd diffyg gweithredol o £0.117 miliwn. Byddai hyn yn gadael balans cronfa wrth gefn at raid o £6.464 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn (ar ôl effaith y dyfarniadau cyflog terfynol) ac yn cynnwys £2.432 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r dyraniad Cynnal Refeniw ychwanegol a dderbyniwyd ar ddiwedd 2021/22, fel yr adroddwyd ym mis 8.

Cafwyd crynodeb o symudiadau sylweddol ar draws portffolios o fis 8, ynghyd â cheisiadau i ddwyn arian ymlaen ar gyfer offer gweinydd newydd i ysgolion, a chais am gyllid o'r Gronfa wrth Gefn at Raid i dalu costau achos cyfreithiol arwyddocaol o fewn y Gwasanaethau Plant. Er i'r gwaith olrhain risgiau o fewn y flwyddyn adrodd am y sefyllfa bresennol gyda lefelau casglu Treth y Cyngor a dyfarniadau cyflog, roedd effaith y galw uwch am Leoliadau y Tu Allan i'r Sir a chlodiant ysgol yn cael ei fonitro'n agos i ganfod yr effaith yn y tymor canolig. Tynnwyd sylw at bwysau a oedd yn dod i'r amlwg, fel costau cynnal a chadw'r gaeaf a'r Tâl am Dorri Rheolau Ailgylchu Gwastraff, ynghyd â balansau diwedd blwyddyn a ragwelwyd ar gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai gorwariant a ragwelir o £3.208 miliwn yn fwy na'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, yn gadael balans terfynol heb ei glustnodi o £3.266 miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau ar wariant a argymhellwyd.

Mewn ymateb i bryderon gan y Cynghorydd Bill Crease am y gostyngiad a ragwelir ym malansau'r ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y rhain wedi'u seilio ar wybodaeth leol swyddogion sy'n gweithio gyda'r ysgolion, ac y gallai grantiau hwyr gael effaith arnynt, ond ni fyddai'r symiau penodol yn hysbys nes cau'r cyfrifon.

Bu i'r Cadeirydd gydnabod y symudiadau amrywiol sy'n cyfrannu at y symudiad cadarnhaol o £0.235 miliwn o fis 8. Mewn ymateb i gwestiynau, cytunodd y swyddogion i ymateb ar wahân ar symudiad costau gofal tymor byr o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ac ar gydbwysu'r mân amrywiadau a ddangosir yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cadeirydd am reoli'r risg o amgylch Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, eglurodd y Prif Weithredwr a'r Cyngorydd Christine Jones fod buddsoddiad yng Nghanolfan Asesu Plant Tŷ Nyth a Pharc Bromfield yn llunio rhan o strategaeth ehangach i ddatblygu darpariaeth fewnol a fyddai'n cyfrannu at leihau'r pwysau hynny.

### Y Rhaglen Gyfalaf

Y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 oedd £71.565 miliwn, gan ystyried yr holl symiau a ddygwyd ymlaen ac arbedion a drosglwyddwyd yn ôl i'r rhaglen. Roedd newidiadau yn ystod y cyfnod wedi digwydd yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau ariannu grant ar draws y portffolios ac ailbroffilio'r gyllideb. Roedd y sefyllfa alldro a ragwelwyd yn £68.505 miliwn, a oedd yn gadael £3.060 miliwn o danwariant, yr argymhellwyd y dylid ei gario drosodd er mwyn cwblhau cynlluniau yn 2023/24 fel y nodwyd. Roedd y diweddariad hefyd yn adlewyrchu dau ddyraniad ychwanegol i gael eu hariannu o fewn y ddarpariaeth hyblyg gyfredol a darpariaeth lechyd a Diogelwch, ynghyd ag arbedion untro i gael eu dychwelyd yn ôl i'r rhaglen. Roedd y sefyllfa gyffredinol o ran ariannu cynlluniau a gymeradwywyd yn dangos £4.258 miliwn o arian dros ben, cyn gwireddu derbyniadau cyfalaf ychwanegol ac/neu ffynonellau cyllid eraill.

Diolchodd y Cyngorydd Paul Johnson i'r swyddogion a'r timau a oedd yn gyfrifol am gydgasglu'r wybodaeth fanwl.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Kevin Rush a Bill Crease.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 (mis 9), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet; ac
- (b) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2022/23 (mis 9), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

## **80. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Dim

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 10.45am)

.....  
**Y Cadeirydd**